Cynllun Gweithredu wedi'i Ddiweddaru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Dyddiad yr archwiliad: 6 – 10 Chwefror 2017
Archwiliad dilynol cyntaf: 4 – 5 Medi 2018

Dyddiad yr archwiliad: 4 – 6 Tachwedd 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Camau i fynd i’r afael â nhw (argymhelliad) | Statws | Heb ei gyflawni’n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| 3.24 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid rhoi amcangyfrif o’r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu’r gwasanaethau gan ystyried y rheiny sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 3.24 (ii) Sicrhau bod yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth Bwyd ac unrhyw dargedau, safonau a chanlyniadau perfformiad a nodwyd. [Y Safon – 3.1] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 3.24 (iii) Sicrhau bod unrhyw amrywiadau o ran bodloni’r | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cynllun gwasanaeth bwyd yn y cynllun dilynol yn cael sylw. [Y Safon – 3.3] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 4.6 (i) Sicrhau y caiff y polisïau a'r gweithdrefnau eu diweddaru â gwybodaeth a chyfeiriadau cyfredol, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, yn unol â gweithdrefnau rheoli dogfennau. [Y Safon – 4.1 a 4.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 5.9 (i) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gynnal rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | Oren | Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i gynnal rheolaethau swyddogol o ran hylendid bwyd a safonau bwyd. | Cafodd nifer y swyddogion sydd eu hangen ei asesu. | Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig yn cael eu penodi i gynnal rheolaethau swyddogol o ran hylendid bwyd a safonau bwyd. |
| 7.29 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon | Gwyrdd | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg isel, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Yn bwriadu ail-alinio ag amlder ymyriadau'r Cod erbyn diwedd 2025/26. | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg isel, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| – 7.1] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.29 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefnau ei hun. Yn arbennig, sicrhau, lle bo'n berthnasol, fod sgorio risg ymyriadau ac ailymweliadau yn cael eu cynnal yn gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 7.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.29 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llwyr yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Oren | Sicrhau bod nodau iechyd/adnabod yn cael eu hasesu'n gyson ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn. Sicrhau bod asesiadau llawn yn cael eu cynnal yn gyson ym mhob Pwynt Rheoli | Asesiadau HACCP wedi'u gwneud. Dim gwybodaeth am farciau adnabod/iechyd. | Sicrhau bod nodau iechyd/adnabod yn cael eu hasesu'n gyson ar gyfer bwyd sy'n dod i mewn. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Critigol ac ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio (safleoedd heb eu cymeradwyo). | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.29 (iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer ymyriadau eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at y trefniadau lleol ar gyfer fflagio, amserlenni ar gyfer ailymweliadau a threfniadau Awdurdod Cartref/Gwreiddiol. Yn ogystal, datblygu gweithdrefn ymyrryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ar gyfer cymeradwyo sefydliadau ac ar gyfer ei Strategaeth Orfodi Amgen. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.29 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod y data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad hylendid | Oren | Sicrhau bod yr arsylwadau'n cael eu cofnodi'n gyson mewn perthynas ag asesiadau | Sylwadau ar asesiadau HACCP wedi'u gwneud. Dim gwybodaeth am farciau | Sicrhau bod yr arsylwadau'n cael eu cofnodi'n gyson mewn perthynas â gwiriadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | | mewn Pwyntiau Rheoli Critigol, gwiriadau ar farciau iechyd/adnabod sy'n dod i mewn a bwyd wedi'i fewnforio (safleoedd heb eu cymeradwyo). | adnabod/iechyd. | ar farciau iechyd/adnabod sy'n dod i mewn a bwyd wedi'i fewnforio (safleoedd heb eu cymeradwyo). |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.48 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder lleiaf a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Oren | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau risg ganolig a sefydliadau heb sgôr (gan gynnwys y rhai a oedd o fewn cwmpas y rhaglen) yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Yn bwriadu ail-alinio ag amlder ymyriadau'r Cod erbyn diwedd 2025/26. Fodd bynnag, mae risgiau gwydnwch a'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfio mewn busnesau yn golygu bod ansicrwydd ynghylch ail-alinio. | Sicrhau bod pob sefydliad yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. |
| 7.48 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob sgôr risg yn gyson â'r canfyddiadau. | Cynnydd wedi'i wneud ond nid yw pob safle wedi'i sgorio'n gywir. | Sicrhau bod pob sgôr risg yn gyson â'r canfyddiadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7.48 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal, yn unol â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 7.48 (iv) Datblygu gweithdrefn ymyrryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 7.48 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu fod y data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 8.8 (i) Diwygio ei weithdrefn hylendid bwyd i gynnwys trefniadau lleol ar gyfer delio â chŵynion o ran cyflwr safleoedd ac amserlenni ar gyfer ymateb i gŵynion. Yn ogystal, dylai'r awdurdod greu a rhoi | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gweithdrefn safonau bwyd ar waith, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau eraill a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 8.1] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 8.8 (ii) Sicrhau ei fod yn ymchwilio i gŵynion am safonau bwyd neu geisiadau gwasanaeth, yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 8.2] | Glas | Cwblhawyd | | |
| 11.3 (i) Adolygu a diweddaru ei weithdrefn ar gyfer rheoli ei gronfa ddata. [Y Safon – 11.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |
| 12.11 (i) Adolygu, diwygio a gweithredu ei bolisi samplu ar | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gyfer archwilio a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.4] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 12.11 (ii) Adolygu, diwygio a gweithredu ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer samplu a dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol ac yn gemegol, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 12.5] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 12.11 (iii) Cynnal gwaith samplu hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'i bolisi, ei weithdrefnau a'i raglen samplu gofnodedig. [Y Safon – 12.6] | Oren | Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chanlyniadau samplu safonau bwyd anffafriol; gan gynnwys rhoi gwybod i'r holl bartïon perthnasol am y canlyniadau. | Rhoddwyd gwybod i'r holl bartïon perthnasol am ganlyniadau'r gwaith samplu. | Sicrhau bod camau gweithredu priodol, gan gynnwys ymchwiliadau pellach, yn cael eu cymryd yn llawn. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 13.9 (i) Adolygu'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn ymchwilio i bob hysbysiad – gan gynnwys hysbysiadau am Campylobacter – yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei gweithredu'n llwyr i gynnwys ymchwilio i bob hysbysiad a chymryd camau dilynol. [Y Safon – 13.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 15.19 (i) Adolygu a diwygio ei bolisïau gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt. Sicrhau bod y polisi gorfodi diogelwch bwyd yn cael ei gymeradwyo gan y fforwm aelodau perthnasol. [Y Safon – 15.1] | Coch | Sicrhau bod y polisi gorfodi yn cynnwys meini prawf ar gyfer pob un o'r dewisiadau gorfodi bwyd. Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu meini prawf a geir yn y weithdrefn gorfodi bwyd fel atodiad i'r polisi diogelu'r cyhoedd. | Dim newid. | Sicrhau bod y polisi gorfodi yn cynnwys meini prawf ar gyfer pob un o'r dewisiadau gorfodi bwyd. Gellir gwneud hyn trwy ychwanegu meini prawf a geir yn y weithdrefn gorfodi bwyd fel atodiad i'r polisi diogelu'r cyhoedd. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.19 (ii) Adolygu, diwygio a gweithredu ei Hysbysiadau Gwella Hylendid, Hysbysiadau Camau Unioni, Hysbysiadau Gwahardd Brys at ddibenion Hylendid a Hysbysiadau Cau Gwirfoddol, rhybuddion syml ac erlyniadau i gynnwys manylion trefniadau lleol; yn arbennig, dylid edrych ar y dull a'r cofnod o gyflwyno'r rhain, y defnydd o | Coch | Diwygio'r weithdrefn mewn perthynas â rhybuddion syml ac erlyniadau i gynnwys y broses ar gyfer llunio ffeiliau achos a chymeradwyo penderfyniadau. | Dim newid. | Diwygio'r weithdrefn mewn perthynas â rhybuddion syml ac erlyniadau i gynnwys y broses ar gyfer llunio ffeiliau achos a chymeradwyo penderfyniadau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| dempledi cymeradwy, gwiriadau cydymffurfiaeth, trefniadau ar gyfer dod â bwyd anniogel neu benderfyniadau gwahardd gerbron Llys Barn, a'r broses o greu a chymeradwyo ffeiliau ar gyfer penderfyniadau ar erlyniadau/rhybuddion syml. [Y Safon – 15.2] | | | | |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.19 (iii) Sefydlu gweithdrefnau gorfodi dogfenedig ar gyfer camau dilynol a gorfodi mewn perthynas â Hysbysiadau Gwella, sefydliadau cymeradwy a bwyd wedi'i fewnforio, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. [Y Safon – 15.2] | Glas | Cwblhawyd. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 15.19 (iv) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni, dinistrio bwyd, erlyniadau a Rhybuddion Syml, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau swyddogol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.2 ac 15.3] | Heb ei gwblhau | Sicrhau bod bwyd sydd wedi'i atafaelu yn cael ei ddinistrio, a bod rhybuddion syml ac erlyniadau yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion perthnasol. | Mae atafaeliadau, rhybuddion syml ac erlyniadau yn dal i fod heb eu profi gan nad oedd yr un ohonynt wedi digwydd yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer yr archwiliad dilynol hwn. | Sicrhau bod bwyd sydd wedi'i atafaelu yn cael ei ddinistrio, a bod rhybuddion syml ac erlyniadau yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion perthnasol. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 15.19 (v) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod, a'u bod yn cael eu cofnodi fel y bo'n briodol. [Y Safon – 15.4] | Heb ei gwblhau | Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod, ac y cânt eu cofnodi'n briodol. | Dal heb ei brofi gan na chafwyd erlyniadau na rhybuddion syml yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer yr archwiliad dilynol hwn. | Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r awdurdod, ac y cânt eu cofnodi'n briodol. |
| 16.7 (i) Cynnal cofnodion cywir a chyfredol o'r holl sefydliadau bwyd yn ei ardal, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn | Oren | Sicrhau bod adroddiadau am ymyriadau yn cael eu hanfon yn gyson i bencadlysoedd busnesau. | Lle'r oedd yn berthnasol, roedd adroddiadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol i'r safle yn hytrach na'r pencadlys cofrestredig. | Sicrhau bod adroddiadau am ymyriadau yn cael eu hanfon yn gyson i bencadlysoedd busnesau. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ganolog, gan gynnwys darparu adroddiadau o ymyriadau i bencadlysoedd busnesau. Rhaid i'r cofnodion hyn gynnwys ffurflenni cofrestru sefydliadau bwyd. Dylai'r gwasanaeth hefyd gofnodi, gyda rhesymau, unrhyw achosion o wyro oddi wrth weithdrefnau sefydledig. [Y Safon – 16.1] | | Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnesau yn cael eu cadw'n gyson, gan gynnwys lle mae tymheredd bwyd sy'n dod i mewn a threfniadau storio bwyd wedi'i oeri yn cael eu nodi fel Pwyntiau Rheoli Critigol.<br><br>Sicrhau bod rhestrau cynhyrchion, llif gwaith cynhyrchion, cynlluniau dosbarthu dŵr, cynlluniau draenio a chynlluniau rheoli plâu yn gyson ar gael ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy, ynghyd â chanlyniadau ar gyfer deunydd crai, profion cynnyrch a dŵr yn ogystal â chanlyniadau samplu awdurdodau lleol. | Nid oedd Pwyntiau Rheoli Critigol yn cael eu dogfennu'n rheolaidd, gan gynnwys tymheredd bwydydd sy'n dod i mewn a storio bwydydd wedi'u hoeri.<br><br>Mae rhestrau cynnyrch, cynlluniau draenio, cynlluniau rheoli plâu a chanlyniadau profion ar gyfer deunyddiau crai, cynnyrch a gwaith samplu'r awdurdod lleol ar gael ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy. | Sicrhau bod elfennau craidd HACCP busnesau yn cael eu cadw'n gyson, gan gynnwys lle mae tymheredd bwyd sy'n dod i mewn a threfniadau storio bwyd wedi'i oeri yn cael eu nodi fel Pwyntiau Rheoli Critigol.<br><br>Sicrhau bod llifau gwaith cynnyrch, cynlluniau dosbarthu dŵr a chanlyniadau samplau dŵr ar gael yn gyson ar ffeiliau sefydliadau cymeradwy. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 16.12 (i) Sicrhau bod y ffurflenni | Glas | Sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys | Adroddiadau wedi'u cynnwys. | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| adrodd ar ymyriadau safonau bwyd a ddarperir i fusnesau yn dilyn ymyriadau/arolygiadau yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | | manylion cyswllt yr uwch-swyddog, a'r amserlenni ar gyfer cydymffurfio. Sicrhau bod adroddiadau'n gyson yn cynnwys camau i'w cymryd gan y busnes ac archwilio dogfennau. | Dogfennau wedi'u harchwilio.<br>Manylion uwch-swyddog.<br>Amserlenni ar gyfer cydymffurfio.<br>Camau i'w cymryd. | |
| 19.10 (i) Adolygu ei weithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer hylendid bwyd i gynnwys awdurdodiadau swyddogion, sefydliadau cymeradwy, Strategaethau Gorfodi Amgen ar gyfer hylendid bwyd a gweithgarwch safonau bwyd. Rhoi'r weithdrefn ddiwygiedig ar waith yn llwyr. [Y Safon – 19.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod y gwaith monitro mewnol yn cael ei weithredu'n llawn, yn unol â'r weithdrefn fonitro fewnol. | Mae gweithredu trefniadau monitro mewnol ansoddol yn cwmpasu ymyriadau, strategaethau gorfodi amgen, ceisiadau am wasanaeth, gan gynnwys samplu, digwyddiadau, awdurdodiadau swyddogion a rhai gwiriadau cronfeydd data. | Ehangu'r gwaith o weithredu'r trefniadau monitro mewnol i gynnwys ymchwiliadau i glefydau heintus ac ystod ehangach o swmp-wiriadau o'r cronfeydd data ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. |
| **Camau i fynd i'r afael â nhw (argymhelliad)** | **Statws** | **Heb ei gyflawni'n flaenorol** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
| 19.10 (ii) Ar gyfer gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd fel ei gilydd, gwirio eu bod yn | Glas | Cwblhawyd | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| cydymffurfio â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | | | | |

Archwiliad CSHB 2017/18, Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

| **Argymhelliad** | **Statws** | **Heb ei gyflawni** | **Cynnydd hyd yma** | **Heb ei gyflawni** |
|---|---|---|---|---|
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd<br>yn ymwneud â sgorio ac ail-sgorio. | Glas | Sicrhau bod ymyriadau sgorio ac ail-sgorio yn cael eu cynnal yn gywir. | Mae sgoriau'r CSHB bellach yn gyson â'r wefan. | Cwblhawyd |
| Camau archwilio'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd<br>mewn perthynas â gweithdrefnau. | Gwyrdd | Sicrhau bod gweithdrefnau, gan gynnwys *aide-mémoires* a thempledi llythyrau, yn cydymffurfio â gofynion y Cynllun. | Mae gweithdrefnau ar gyfer gwneud copi wrth gefn o'r cronfeydd data bellach wedi'u darparu. Mae gweithdrefnau ymyrryd, *aide-mémoires* a thempledi llythyrau adroddiadau wedi'u diwygio. | Mae angen manylion o hyd ar y gweithdrefnau mewn perthynas â'r canlynol:<br>cyngor ar arddangos mewn man amlwg;<br>gwirio bod sgoriau'n cael eu harddangos yn ystod ymweliadau ymatebol.<br>Gwiriadau arddangos mewn busnesau lluosog. |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni |
|---|---|---|---|---|
| Camau gweithredu mewn perthynas â monitro mewnol yn sgil archwiliad o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. | Glas | Sicrhau bod y gwaith monitro mewnol yn cael ei weithredu'n llawn, yn unol â'r weithdrefn fonitro fewnol. Monitro camau i gyhoeddi gwybodaeth ddiogelu. | Mae rhoi'r weithdrefn ar waith wedi'i uno ag 19.10(i) uchod. Gwybodaeth ddiogelu yn cael ei chyhoeddi. | Cwblhawyd. |

Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm yr argymhellion** | **34** |
| **Cwblhawyd** | **20** |
| **Cynnydd da** | **4** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | **6** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | **2** |
| **Heb eu profi** | **2** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **14** |